



Warden a Warden Cynorthwyol, Ynys Enlli

Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yn chwilio am ddau unigolyn i fyw ar Enlli'n llawn amser fel wardeniaid. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gorfforol ffit ar gyfer y cyfle heriol ond gwerth chweil yma i fyw mewn rhan unigryw o Gymru ac fel rhan o gymuned fechan yr ynys. Wedi eu hamgylchynu gan Fôr Iwerddon, bywyd gwyllt gwych a thywydd eithafol, bydd rhaid i'r ymgeiswyr fod yn gysurus â chyfnodau eithaf unig, tra hefyd yr un mor gysurus ymysg hyd at 50 o westeion wythnosol sy'n ymweld yn ystod misoedd prysur yr haf.

Saif Enlli ddwy filltir oddi ar ben draw Penrhyn Llŷn, Gwynedd. Mae'r ynys yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac mae ganddi hanes cyfoethog 1,000 blynedd o fywyd mynachaid, diwylliant ysbrydolrwydd a phobl yn byw ac yn gweithio yma, gyda mwy nag 20 o adeiladau rhestredig Gradd II a nifer o Henebion Cofrestredig. Mae deg o'r adeiladau rhestredig Gradd II yn cael eu gosod i ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf, ac mae 2,000 o ymwelwyr dydd yn teithio i Enlli bob blwyddyn.

Mae'r Ynys yn eiddo i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli sydd hefyd yn ei rheoli a'u dymuniad yw recriwtio dau warden newydd i'r ynys. Y wardeniaid sy'n gyfrifol am ofalu a chynnal a chadw isadeiledd yr ynys, gan gynnwys y tai. Mae dyletswyddau'r swyddi yn cynnwys rheoli'r eiddo sy'n cael eu gosod, croesawu ymwelwyr sy'n ymweld am amryw resymau gan gynnwys gwyllo adar a pherierindod, a chynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar yr ynys, fel unig weithwyr yr Ymddiriedolaeth ar Enlli. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i weithio'n ddwyieithog a disgwylir i ymgeiswyr am y swydd

Warden and Assistant Warden, Bardsey Island

The Bardsey Island Trust is looking for two individuals to live on Bardsey full time as wardens. Candidates must be physically fit and able for a challenging but rewarding opportunity to live in a unique part of Wales as part of the small working island community. Whilst surrounded by the Irish Sea, fantastic wildlife and extreme weather, the candidates must be comfortable with periods of isolation, whilst also being just as content amongst up to 50 visiting weekly guests during the peak of summer.

Bardsey lies two miles off the tip of the Llŷn Peninsula, Gwynedd. The island is a National Nature Reserve and has a rich 1,000 year history monastic life, spiritual heritage and of people living and working here, with more than 20 Grade II listed buildings and a number of Scheduled Ancient Monuments. Ten of the Grade II listed buildings are let to visitors during the summer months, whilst 2,000 day visitors travel to experience Bardsey each year.

The island is owned and managed by the Bardsey Island Trust that is recruiting two new island wardens. The wardens are responsible for the care and maintenance of the island infrastructure, including the houses. The duties of the posts include managing the let properties, welcoming visitors who come for a range of reasons including birdwatching and pilgrimage, and representing the Trust on the island, as the only Trust employees based on Bardsey. The Trust is committed to working bilingually and applicants for the position of warden will be expected to be able to speak both Welsh and English; it is desirable that the assistant also be bilingual.

warden allu siarad Cymraeg a Saesneg; mae'n ddymunol bod y cynorthwydd hefyd yn ddwyieithog.
Contract 3-blynedd yw hon a byddai'n addas i ddau ymgeisydd sy'n ymgeisio gyda'i gilydd. Darperir llety.
Ceir manylion llawn ar www.enlli.org

Gwybodaeth i ymgeiswyr

- Anfonwch Curriculum Vitae llawn ar gyfer pob ymgeisydd ynghyd â llythyr cais sy'n rhoi manylion eich medrau a'ch profiad sy'n sicrhau eich bod yn briodol ar gyfer y swydd hon.
- Dylid anfon ceisiadau at swyddienlli@gmail.com neu i Swyddfa Enlli, Blwch Post 79, Pwllheli, Gwynedd, LL53 9AT
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Hanner dydd, ddydd Llun, Mehefin 24, 2019.
- Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wylnos yn cychwyn Gorffennaf 15, 2019 ym Mhwllheli neu yn yr ardal gyfagos.
- Bydd ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais ar e-bost yn derbyn cydnabyddiaeth bod y cais wedi ei dderbyn ac fe'u hysbysir ar e-bost os na fyddant wedi cael eu dewis ar gyfer cyfweiliad. Dylai ymgeiswyr drwy'r post, sy'n dymuno cael eu hysbysu nad ydynt wedi'u dewis ar gyfer cyfweiliad, amgáu amlen â stamp.
- Dyddiad cychwyn y swydd fydd 16 Medi 2019, er mwn cael pythefnos ar yr ynys gyda'r wardeniaid presennol.
- **Cynghorir ymgeiswyr i ymweld â'r ynys er mwyn ymgyfarwyddo ag adeiladau'r ynys** ac i wneud trefniadau Caroline Jones yn Swyddfa Enlli (Tel: 07904 265604) i weld Tŷ Bach, cartref y wardeniaid, cyn iddynt gyflwyno eu cais.

This is a 3-year contract and would suit two applicants applying together. Accommodation is provided.
Full details are available on www.bardsey.org

Information for applicants

- Please send a full Curriculum Vitae for each applicant together with a letter of application giving details of the skills and experience that you have which make you suitable for this post.
- Applications should be sent to swyddienlli@gmail.com or to Swyddfa Enlli/Bardsey Office, PO BOX 79, Pwllheli, Gwynedd, LL53 9AT
- Closing date for applications: Noon on Monday, June 24th, 2019.
- Interviews will be held during the week commencing 15th July, 2019 in Pwllheli or the surrounding area.
- Applicants by e-mail will receive an acknowledgement of receipt and will be notified by e-mail if they have not been selected for interview. Applicants by post, who wish to be notified that they have not been selected for interview, should enclose a stamped, addressed envelope.
- The starting date for the post will be 16th September 2019, which is to allow for a two week overlap with the current wardens.
- **Applicants are advised to visit the island, to familiarise themselves with the island buildings** and to make arrangements with Caroline Jones, at the Bardsey Office (Tel: 07904 265604) to view Tŷ Bach, the residence for the wardens, before they submit their application.

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD: Warden llawn amser a Warden Cynorthwyol rhan-amser. Mae hon yn swydd i 2 unigolyn a byddai'n addas ar gyfer 2 o bobl sy'n ymgeisio gyda'i gilydd.

LLEOLIAD: Enlli, Aberdaron, Gwynedd

CYFLOG: £16,500 i'r Warden a £8,000 i'r Warden Cynorthwyol rhan-amser (mae llety a gwasanaethau wedi'u cynnwys fel rhan o'ch pecyn).

CYFNOD: Mae hwn yn gontract 3 blynedd, yn amodol ar gyfnod prawf o 12 mis.

CYD-DESTUN

Mae rôl y warden yn llawn amser ac fe'i cefnogir gan gynorthwydd rhan amser. Mae'r ddwy rôl yn swyddi drwy'r flwyddyn, wedi'u lleoli ar Enlli.

Gosodir tri o dai'r ynys ar brydles gan yr Ymddiriedolaeth i breswylwyr eraill yr ynys - y fferm, yr Wylfa Adar a physgotwr cymychiaid lleol. Byddwch yn rhan o'r gymuned fechan hon, yn aml yn cydweithio, tra hefyd yn gweithredu fel eu cyswllt â'r Ymddiriedolaeth. Ar hyn o bryd nid yw'r trigolion yma yn aros yn Enlli dros y gaeaf, ond mae'r ffermwr a'r cwch yn ymweld pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Prif amcanion yr Ymddiriedolaeth yw gwarchod a gwella'r yr ynys a galluogi i ymwelwyr ei mwynhau yn ogystal â chefnogi cymuned yr ynys. Yn ystod yr haf, mae'r ynys yn croesawu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy'n aros dros nos yn y rhan fwyaf o'r tai. Dyma amser prysuraf y flwyddyn i'r wardeniaid a byddwch yn gweithio oriau hir yn ystod y misoedd hyn. Fodd bynnag, yn

JOB DESCRIPTION

JOB TITLE: Full time Warden and part-time Assistant Warden. This is a position for 2 individuals and would suit 2 people applying together.

BASE: Bardsey, Aberdaron, Gwynedd

SALARY: £16,500 for the Warden and £8,000 for a part time Assistant Warden (accommodation and utilities are included as part of your package).

TERM: This is a 3-year contract, subject to a 12-month probationary period.

CONTEXT

The warden's role is full-time and will be supported by a part-time assistant. Both roles are year-round posts, located on Bardsey.

Three houses on the island are leased by the Trust to other island residents - the farm, the Bird Observatory and the local lobster fisherman. You will be part of this small community, often working together, whilst also being their contact to the Trust. Currently none of these island residents remain on the island over the winter months, however the farmer and the boatman visit when possible and the weather allows.

The principal aims of the Trust are to care for and enhance the island and allow visitors to enjoy it as well as supporting the island community. During the summer, the island welcomes day-trippers and overnight visitors who stay in most of the houses. This is the busiest time of the year for the wardens and you will find yourself working long hours during these months. However, during the winter the working days are shorter and quieter, allowing time to reflect, plan and prepare for the year ahead.

ystod y gaeaf mae'r dyddiau gwaith yn fyrrach ac yn fwy tawel, gan ganiatáu amser i chi adlewyrchu a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Tanysgrifiadau aelodaeth a gosod y tai yw prif ffynonellau incwm yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Felly mae'n hanfodol bod y wardeniaid yn sicrhau bod yr adeiladau'n cael eu paratoi i ansawdd uchel a bod gwesteion yn cael profiad plaserus, hamddenol a chadarnhaol.

Mae'r ynys yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac mae iddi lawer o ddynodiadau cadwraeth natur eraill. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau'r ynys â statws Adeiladau Rhestredig.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi gweinyddwr rhan-amser, sy'n gweithio ym Mhwlheli, a fydd yn brif gyswllt ar faterion o ddydd i ddydd.

Gweithredir y cludiant rhwng y tir mawr a'r ynys yn breifat gan gwmni cwch lleol. Mae'r gwasanaeth cwch yn rhedeg yn aml yn ystod yr haf, yn amodol ar y tywydd. O fis Hydref hyd at fis Mawrth, dim ond yn achlysurol y bydd cychod yn ymweld â'r ynys, felly rhaid i chi fod yn barod i fyw ar eich pen eich hun am gyfnodau hir yn ystod misoedd y gaeaf.

Darperir llety, gweler y manylion isod.

DYLETSWYDDAU AMLINELLOL

Byddwch yn gyfrifol, fel cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth ar yr ynys, am bob agwedd ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar yr ynys, yn enwedig sicrhau bod y tai yn cael eu paratoi i safon uchel ar gyfer ymwelwyr a bod y tai, y gerddi ac isadeiledd arall yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn. Gosodir y tai i ymwelwyr rhwng mis Ebrill a mis Hydref.

Mae'r wardeniaid yn sicrhau, hyd eithaf eu gallu, bod anghenion ymwelwyr yn cael eu hateb, wrth gyrraedd yr ynys ac yn ystod eu hamser arni.

Membership subscriptions and lettings are the Trust's principal sources of income at the moment. As such it is imperative that the wardens ensure that the buildings are presented to a high quality and that guests have an enjoyable, relaxing and positive experience whilst staying.

The island is a National Nature Reserve and has many other nature conservation designations. Most of the buildings on the island have Listed Buildings status.

The Trust employs a part-time administrator, based in Pwllheli, who will be your main contact on day to day matters.

Transport between the mainland and the island is operated privately by a local boatman. Boat services run frequently during the summer, subject to weather conditions. From October to March, boats visit the island only occasionally therefore you must be prepared to live in isolation for long periods at a time during the winter months.

Accommodation is provided, please see details below.

OUTLINE DUTIES

You will be responsible, as representatives of the Trust on the island, for all aspects of the Trust's activities on the island, in particular for ensuring that the houses are prepared to a high standard for visitors and that the houses, gardens and other infrastructure are maintained throughout the year. The houses are let to visitors between April and October.

The wardens ensure, to the best of their ability, that the needs of visitors are met, both on arrival and during their stay on the island.

Darperir cysylltiad rhyngrwyd a ffôn â'r tŷ a disgwylir i chi archebu a threfnu bod eitemau a deunyddiau yn cael eu danfon fel bo angen i redeg yr ynys yn effeithlon ar y cyd â Thrysorydd yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am awdurdodi gwariant.

Os yw ymgeiswyr yn ymgeisio gyda'i gilydd, ac os bydd eu hamgylchiadau'n golygu cyfuniad gwahanol o oriau, byddai'r Ymddiriedolaeth yn ystyried hyn.

Byddwch yn gyfrifol am fuddiannau'r Ymddiriedolaeth fel tirlfeddiannwr ac yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd/Pwyllgor Gwaith (Uwch Aelodau'r Cyngor) yn rheolaidd.

CYNNWYS SWYDD

1. Bod yn rhan o gymuned yr ynys, byw a gweithio ar y cyd â thrigolion yr ynys a sicrhau bod cyswllt a chyfathrebu rhagorol rhwng yr ynyswyr a'r Ymddiriedolwyr.
2. Cynnal adeiladau ac isadeiledd arall gan gynnwys mân waith adeiladu, paentio ac addurno, atgyweirio, torri gwellt a garddio. Cynnal a pharatoi pob eiddo ar yr ynys i safon uchel.
3. Cynnal pob tŷ sy'n cael ei osod yn wythnosol ac ar gyfer gwyliau byr mewn cyflwr glân a thaclus trwy gydol y tymor ymwelwyr. Sicrhau fod y cyfarpar angenrheidiol ac offer arall ym mhob tŷ a bod popeth yn gweithio'n dda.
4. Darparu gwasanaeth o safon uchel i ymwelwyr, croesawu ymwelwyr wythnosol a rhai sy'n dod ar wyliau byr i'r ynys, ac ateb eu hanghenion (o fewn rheswm) yn ystod eu gwyliau.
5. Darparu gwybodaeth am yr ynys a'r Ymddiriedolaeth i ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd a recriwtio aelodau newydd i'r Ymddiriedolaeth.

Internet and telephone connection are provided to the accommodation and you will be expected to order and arrange delivery of items and materials as necessary for the efficient running of the island in conjunction with the Treasurer of the Trust who is responsible for authorising expenditure.

If candidates are applying together, and their circumstances dictate a different configuration of hours, the Trust would consider this.

You will be responsible for the interests of the Trust as landowner and report to the Chair/Executive (Senior Members of Council) on a regular basis.

JOB CONTENT

1. To be part of the island community, living and working cooperatively with the island residents and ensuring that there is excellent liaison and communication between the islanders and the Trustees.
2. Maintain buildings and other infrastructure including minor building works, painting and decorating, routine repairs, grass cutting and gardening. All island properties to be maintained and presented to a high standard.
3. Maintain all houses that are let on a weekly and short break basis in a clean and tidy state throughout the visitor season. Ensure that every house has the necessary appliances and other equipment and that everything is in good working order.
4. Provide a high standard of service to visitors, welcome weekly and short break visitors to the island, and ensure that their reasonable needs are provided for during their stay.
5. Provide information about the island and the Trust to both overnight visitors and day visitors and to recruit visitors to join the Trust.

6. Sicrhau bod peiriannau, cerbydau ac offer arall yn cael eu cynnal mewn cyflwr da a'u bod ar gael i'w defnyddio ar yr ynys.
7. Rheoli gwastraff ac ailgylchu ar yr ynys, gan gynnwys cynnal a chadw, glanhau a gwagio cyfleuster toiled compostio cyhoeddus yr ynys.
8. Creu rhaglenni gwaith i wirfoddolwyr, hysbysebu cyfleoedd a goruchwyllo gwirfoddolwyr wrth iddynt wneud gwaith ar yr ynys.
9. Cynghori'r Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Adeiladau am waith adeiladu angenrheidiol a chysylltu ag adeiladwyr a chrefftwyr sy'n gweithio ar yr ynys, a goruchwyllo'u gwaith.
10. Sicrhau bod holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch a pholisïau ar gyfer diogelu pobl fregus. Nodwch ei bod yn ofynnol bod pob un o'n gweithgareddau yn cydymffurfio â'n dyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â dynodiadau amgylcheddol, cadwraeth natur a chadwraeth adeiladau.
11. Bydd un Warden yn Swyddog Iechyd a Diogelwch ar yr ynys a bydd yn cysylltu â'r Ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y maes yma, gan ysgrifennu adroddiadau rheolaidd a gwneud asesiadau risg.
12. Darperir hyfforddiant mewn meysydd lle bo angen er mwyn cyflawni'r swyddi.

CYFRIFOLDEBAU ERAILL

Ambell dro bydd argyfwng meddygol ar yr ynys. Byddwch chi'n rhan o dîm ar yr ynys sy'n delio ag unrhyw argyfwng ac yn rhoi cefnogaeth i aelodau eraill o gymuned yr ynys.

Cynorthwyo trigolion eraill ar yr ynys ac, yn arbennig, cadw llygad ar fferm yr ynys (defaid a gwartheg) am gyfnodau byr achlysurol, er mwyn caniatáu i

6. Ensure that machinery, vehicles and other equipment are kept in good working order and always available for use on the island.
7. To manage waste and recycling on the island including maintenance, cleaning and emptying of the island's public composting toilet facility.
8. Create work programmes for volunteers, advertise opportunities and supervise volunteers in carrying out work on the island.
9. Advise the Trustees and the Buildings Committee on building work that is required and to liaise with and supervise builders and craftsmen working on the island.
10. Ensure that all of the activities of the Trust conform to Health & Safety and policies for the safeguarding of vulnerable people. Please note that all of our activities must conform to our legal duty in respect of the environmental, nature conservation and building conservation designations.
11. One Warden will be the Health and Safety Officer on the island and will liaise with the Trustee responsible for this area, writing regular reports and risk assessments.
12. Training will be provided in areas where required in order to fulfil the posts.

OTHER RESPONSIBILITIES

Occasionally there may be a medical emergency on the island. You will be part of a team on the island dealing with any emergency and give support to the other members of the island's community.

To assist other residents on the island and, in particular, to have a watching brief for the island farm (sheep and cattle) for occasional short periods, in order to allow farm staff to be absent from the island. Support will be available from the mainland if there are any problems.

staff y fferm fod yn absennol o'r ynys. Bydd cefnogaeth ar gael o'r tir mawr pe bai unrhyw broblem.

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu hystyried yn rhesymol ac yn angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod yr ynys yn gweithredu'n ddi-broblem.

LLETY'R WARDENIAID

Darperir 'Llety Cysylltiedig' gyda swydd Warden yr Ynys, gan ei bod yn angenrheidiol i ddalwyr y swyddi fyw ar yr ynys. Darperir y llety hwn heb godi rhent.

Un o dai pêr gyda dwy ystafell wely yw'r tŷ, Tŷ Bach, a ddarperir ar yr ynys, a bydd yn cael ei rannu gan y ddau warden. Dyma fydd eich cartref drwy gydol y flwyddyn. Mae gwasanaethau trydanol sylfaenol yn Nhŷ Bach a ddarperir gan baneli ffotofoltäig a generadur disel, ac mae caniatâd cynllunio am dyrbin gwynt (i'w godi a'i gysylltu pan fo modd), yn ddigonol i yrru anghenion trydanol sylfaenol. Daw'r dŵr o ffynnon a darperir dŵr poeth gan Rayburn olew. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y tanc olew wedi'i lenwi pan fyddwch chi'n cyrraedd yr ynys. Yna, chi fydd gyfrifol am fonitro'r lefelau olew ac am archebu cyflenwadau olew pellach.

GWYLIAU

Byddwch yn cael 20 diwrnod o wyliau blyneddol yn ychwanegol at wyliau statudol (*pro rata* os yn gweithio'n rhan amser). Ni chaniateir gwyliau ym mis Mawrth yn ystod cyfnod paratoi'r tai ar gyfer y tymor, na rhwng 14 Mehefin a 1 Medi ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig ac os gellir dod o hyd i rywun priodol i gyflenwi dros dro.

Rhoddir amser *in lieu* yn ystod misoedd y gaeaf am unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd dros y prif dymor gwyliau.

To undertake any other duties that may be considered reasonable and necessary, in order to ensure the smooth running of the island.

WARDENS' ACCOMMODATION

The post of Island Warden is provided with 'Tied Accommodation', since it is necessary for the post holders to live on the island. This accommodation is provided without charging rent.

The house provided is a 2-bedroom semi-detached property on the island, Tŷ Bach, and will be shared by both wardens. This will be your home throughout the year. Tŷ Bach has basic electrical services provided by photovoltaic panels and a diesel generator, with planning permission for a wind turbine (to be erected and connected when possible), sufficient to power basic electrical needs. Water is piped from a spring and hot water is provided by an oil-fired range. The Trust will ensure that the oil tank is topped up when you arrive on the island. You will then be responsible for monitoring the oil levels and ordering further oil supplies.

LEAVE

Annual leave allowance is 20 days in addition to statutory holidays (*pro rata* if working part time). Leave may not be taken in March in the run up to the season opening, nor between 14th June and 1st September except in special circumstances and if suitable cover can be found.

Time off *in lieu* will be given over the winter months for any additional hours worked over the main holiday season.

Darperir y gwasanaeth cwch gan weithredwr preifat. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn talu am un daith y mis ar gyfer dalwyr y swyddi.

The boat service is provided by a private operator. The Trust will pay for one trip per month for the post holders.